## MOELWYNION & MIGNEINT

Yr oedd Bwlch Carreg y Fran yn bwysicach nac y mae heddiw, yr oedd sawl bwlch arall drwy'r Migneint ond yr oedd ei defnydd yn anodd iawn, ac weithiau yn beryglus, yn y gaeaf.

**Bwlch y Battel SH 637469**

Nid y gair a fenthyciwyd o'r Saesneg Canol *batayle,batel* 'brwydr'. Ar fap O.S. 1832 fe geir Bwlch Badell; os yn gywir, tybed ai at bant yn y tir, neu gwaelod crwm odyn mwynau y mae'r gair *padell* 'dysgl, bowlen, crochan' yn cyfeirio? Fe welir y nodyn 'Bryn y Fatal .... Diau y bu yma rhyw frwydr fawr.' 1920 Cylchgr. Cymru.

**Bwlch Clorad 1726ft 526m SH 680544**

Planhigyn oedd yn weddol gyffredin yn y cymoedd, ac yr oedd moth yn ei ffafrio. *Clorad* 'cylorad, cnau daear': *Conopodium majus*.

**Bwlch Ehediad SH 666524**

Mae'n anodd penderfynu ai rhediad`gwahanfa ddwr' sy'n gywir fel ar y map AO, neu'r enw a welir ar yr hen fapiau AO 1838 Bwlch-ehediad, gyda *ehediad* 'adar'. Ond, oherwydd bo'r y bwlch yn agor allan i Gwm Edno; gyda *edn* 'aderyn, lluosog *ednod* 'adar', rhaid dewis yr enw a'r ystyr olaf yma.

**Bwlch Stwlan SH 660441**

Gwelir yr enw Stwlan ar fapiau heddiw; enw sydd wedi bod yn destun llawer o ddehongliadau. Bwch Stol Elen, Bwlch Drws Elen a Bwlch Julian i enwi rhai. Yr enw cynnar yw Trwstyllon, fe ddefnyddiwyd y sillafiad gan Thomas Pennant hefyd ac efallai ei fod yn ffurf lygredig ar y gair *trwstan* 'anodd, lletchwith'. Mae cyfres 1840-80 o fapiau 6" yr AO yn rhoi'r enw yn wallus fel Trwst y Llon. Ond, yr elfen *trwst* 'sŵn, twmpath; taran' sydd o ddiddordeb gan y byddai'n debyg i'r hyn a welir yn enw'r afon Trystion (Trwstiog ar un adeg) sy'n rhuthro i lawr ceunant ger Cynwyd. Hawdd y gellid disgrifio'r Trwstyllon fel nant ffyrnig a chyffwrddlig yn rhythro lawr y llechweddau. Bwlch Trwstyllon 1838 AO.

**Bwlch Sugn SH 604482**

Defnyddir y gair *sugn* 'sugnedd, sugniad' i ddisgrifio cors neu mign gwlyb iawn; hynny yw ardal ble mae'r mawn a mwsog yn symud. Bwlch y Sygyn yw'r enw ar map AO.

**Bwlch Maen Pig SH 674531**

Nid *main* 'tenau', na un hen ffurf lluosog maen ond *maen*`carreg' + *pig* 'pwynt'.

**Bwlch Rhiw yr Ychen SH 675542**

Yn ôl chwedloniaeth, dyma'r rhiw ble lusgwyd yr Afanc drosodd at yr Wyddfa. Yn Siarter Aberconwy 1198 cofnodwyd y pwll bychan yn agos i gopa'r bwlch fel Llygad er Ych a'r creigiau i'r De o'r bwlch del Cerrig er Ych. Mae'r bwlch wedi gweld defnydd trwm ers canrifoedd, ac ar un adeg roedd yn llwybr pwysig drwy'r mynyddoedd. Mae llethrau dwyreiniol y bwlch yn dangos olion y llwybrau pleth sy'n dringo'r llechweddau ar igam-ogam. Ychen 'oxen', lluosog y gair ych: *Bos taurus.*

**Bwlch y Gorddinan SH 701489**

Bwlch y Gerddinen oedd yr enw gwreiddiol y bwlch rhwng Blaenau Ffestiniog a Dolwyddelan, nid Crimea. Cerddinen yw'r coed criafol; yn gysylltiedig a Cernyweg *kerden*, Llydaweg *kerzin*, *-en*, Gwyddeleg *caorthainn*.

**Bwlch y Maen SH 640419**

Y tebygrwydd yw mai cyfeiriad at yr ochrau caregog ac nid carreg arbennig sydd yn yr enw, yn

Mynyddoedd.co.uk

hytrach na charreg arbennig neu faen hir y gellir eu cysylltu â bylchau weithiau.

**Bwlch y Re SH 609487**
Gre 'gyr, haid', enwedig o geffylau; Llydaweg *gre*, Hen Wyddeleg *graig* 'ceffylau, gre'; yn yr Haf mae ceffylau yn tueddu casglu mewn mannau gwyntog, i leihau'r niferoedd o bryfed sy'n eu poeni.

**Bwlch y Rhosydd SH 660461**
Lluosog y gair rhos 'gwaun, uwchdir'; Llydaweg Canol *ros*, Gwyddeleg *ross*, Hen Gymraeg *ros*. o'r Celteg ***rostos*. Bwlchyrhosydd 1838 AO.

Mynyddoedd.co.uk